Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Awdurdodaeth Gynhenid




## 1 Cyd-destun

Cafodd Adolygiad Ymarfer Oedolion ei gyhoeddi ym mis Awst 2021 a thema ddysgu allweddol oedd: *Dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol pryd y gallai "awdurdodaeth gynhenid" y llys fod yn ddefnyddiol.*

Gweler yr adroddiad llawn yma: Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig - GWASB 3/2019 (gwentsafeguarding.org.uk)

## 2 Beth yw Awdurdodaeth Gynhenid?

Mae awdurdodaeth gynhenid yn athrawiaeth o gyfraith gwlad Lloegr bod gan lys uwch yr awdurdodaeth i wrando ar unrhyw fater a ddaw ger ei fron, oni bai bod statud neu reol yn cyfyngu ar yr awdurdod hwnnw neu'n rhoi awdurdodaeth gyfyngedig i ryw lys neu dribiwnlys arall.

## 3 Pryd y gellir rhoi Awdurdodaeth Gynhenid?

Gellir rhoi awdurdodaeth gynhenid fel y dewis olaf pan fydd pob dull arall o gydweithio wedi cael eu disbyddu.

## 4 Pwyntiau Allweddol

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae awdurdodaeth gynhenid wedi cael ei defnyddio amlaf fel ffordd o ddiogelu oedolyn 'agored i niwed' lle mae'n cael ei gam-drin, neu'n destun rhyw fath o orfodaeth neu ddylanwad gormodol, ond lle mae ganddo alluedd meddyliol.

## 5 Pwyntiau Allweddol

Dylid defnyddio awdurdodaeth gynhenid mewn sefyllfaoedd lle mae gan berson alluedd meddyliol o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, ond ei fod yn 'agored i niwed' oherwydd bod amhariad rhywsut ar ei allu i wneud penderfyniadau oherwydd cam-drin, dylanwad gormodol, neu orfodaeth gan berson arall.

## 6 Pwyntiau Allweddol

Ar gyfer gorchymyn o dan awdurdodaeth gynhenid, yr hyn y mae'n bwysig ei ganfod yw a yw penderfyniadau'r person yn cael ei beryglu gan ddylanwad gormodol, cam-drin neu orfodaeth gan berson arall; mae awdurdodaeth gynhenid yn ymwneud yn unig ag unigolion sy'n agored i ddylanwadau sy'n golygu na allant wneud eu dewis rhydd eu hunain, ac na allant amddiffyn eu hunain.

## 7 Achos enghreifftiol

Roedd gan P broblemau iechyd lluosog. Ar ôl i wraig P farw, roedd yr awdurdod lleol yn pryderu bod mab P, a oedd hefyd yn byw gydag ef, yn ei atal rhag cael y gofal a'r driniaeth angenrheidiol a oedd yn golygu ei fod yn byw mewn amgylchedd gwael. Roedd gan fab P hefyd broblemau gyda chyffuriau ac alcohol ac roedd yn ymddwyn yn heriol. Gan ddefnyddio awdurdodaeth gynhenid, gwnaeth y llys orchymyn a awdurdodwyd yn i symud P i gartref gofal dros dro ac yna i'w ddychwelyd i'w gartref ei hun ond nid i fyw gyda'i fab.